



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2011 Rhif 1945 (Cy.212)

2011 No. 1945 (W.212)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Perfformiad Ysgol a
Thargedau Absenoldeb (Cymru)
2011**

**The School Performance and
Absence Targets (Wales)
Regulations 2011**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 19, 54(3) a (4) o Ddeddf Addysg 1997 ac adrannau 63 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Maent yn diddymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau Reoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 1999.

These Regulations are made under sections 19, 54(3) and (4) of the Education Act 1997 and sections 63 and 138(7) and (8) of the School Standards and Framework Act 1998. They repeal and re-enact with changes the Education (School Performance and Absence Targets) (Wales) Regulations 1999.

Mae rheoliad 3 yn gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu ysgolion yn gosod targedau perfformiad ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol dau. Mae rheoliad 4 yn gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu'n gosod targedau perfformiad ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol tri, a rheoliad 5 yn gwneud yn ofynnol bod cyrff llywodraethu'n gosod targedau perfformiad ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol pedwar.

Regulation 3 requires school governing bodies to set performance targets for pupils in the second key stage. Regulation 4 requires governing bodies to set performance targets for pupils in the third key stage, and regulation 5 requires governing bodies to set performance targets for pupils in the fourth key stage.

Mae rheoliad 6 yn gwneud yn ofynnol bod corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir sy'n darparu addysg uwchradd yn gosod targedau terfynol, targedau adolygedig a thargedau dros dro ynghylch absenoldeb anawdurdodedig disgyblion o'r ysgol, am flwyddyn ac am dwy flynedd ymlaen llaw. Bydd rhaid cyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am y targedau hyn a chyfradd wirioneddol yr absenoldebau anawdurdodedig, ynghyd ag adroddiad blynyddol y corff llywodraethu.

Regulation 6 requires the governing body of every maintained school providing secondary education to set final, reviewed and provisional targets in respect of pupils' unauthorised absence from school for 1 and 2 years ahead. Information concerning these targets and the actual unauthorised absence rate will have to be published every year with the governing body's annual report.

2011 Rhif 1945 (Cy.212)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Perfformiad Ysgol a
Thargedau Absenoldeb (Cymru)
2011**

Gwnaed 29 Gorffennaf 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 4 Awst 2011

Yn dod i rym 1 Medi 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 54(3) a (4) o Ddeddf Addysg 1997(1) ac adrannau 63 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(2) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt (3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Dirymir y rheoliadau a bennir yn Atodlen 1.

2011 No. 1945 (W.212)

EDUCATION, WALES

**The School Performance and
Absence Targets (Wales)
Regulations 2011**

Made 29 July 2011

*Laid before the National
Assembly for Wales* 4 August 2011

Coming into force 1 September 2011

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 19 and 54(3) and (4) of the Education Act 1997(1) and sections 63 and 138(7) and (8) of the School Standards and Framework Act 1998(2), and now vested in them(3), make the following Regulations:

Title, commencement, application and revocation

1.—(1) The title of these Regulations is the School Performance and Absence Targets (Wales) Regulations 2011, and they come into force on 1 September 2011.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) The regulations set out in Schedule 1 are revoked.

(1) 1997 p.44. Amnewidiwyd is-adran (3) o adran 19 o Ddeddf Addysg 1997 gan baragraff 213 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(2) 1998 (p.31). Diwygiwyd is-adrannau (1), (3) a (4) o adran 63 gan adran 53(1), (3) a (4) a Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002, a mewnosodwyd is-adran (3A) gan adran 53(1) a (3) o Ddeddf Addysg 2002. Diwygiwyd is-adran (7) o adran 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan baragraff 3(1) a (4) o Atodlen 17 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40).

(3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 19 a 54 o Ddeddf Addysg 1997 ac adrannau 63 a 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(1) 1997 c.44. Sub-section (3) of section 19 of the Education Act 1997 was substituted by paragraph 213 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).

(2) 1998 (c.31). Sub-sections (1), (3) and (4) of section 63 were amended by section 53(1), (3) and (4) and Part 3 of Schedule 22 to the Education Act 2002, and sub-section (3A) was inserted by the section 53(1) and (3) of the Education Act 2002. Sub-section (7) of section 138 of the School Standards and Framework Act 1998 was amended by paragraph 3(1) and (4) of Schedule 17 to the Education and Inspections Act 2006 (c.40).

(3) The functions of the Secretary of State in sections 19 and 54 of the Education Act 1997 and sections 63 and 138 of the School Standards and Framework Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad blynyddol yr ysgol" ("*school's annual report*") yw'r adroddiad i rieni y mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol ei baratoi a'i gyhoeddi ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn rhinwedd offeryn llywodraethu'r ysgol neu yn rhinwedd adran 30 o Ddeddf 2002(1);

ystyr "arholiad TGAU" ("*GCSE examination*") yw arholiad y mae'r cwrs sy'n arwain ato yn gwrw astudio llawn ar gyfer TGAU;

ystyr "asesiadau athrawon" ("*teacher assessments*") yw'r asesiadau o ddisgyblion a gyflawnir gan athrawon at ddibenion dyfarnu'r lefel cyrhaeddiad y maent wedi ei chyflawni mewn Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth neu fathemateg, ac y gwnaed darpariaeth asesu ar eu cyfer gan neu o dan orchmynion a wnaed o dan adran 108(3)(c) o Ddeddf Addysg 2002(2) ac sydd mewn grym pan gyflawnir yr asesiadau;

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yw cyfnod o ddeuddeng mis yn dechrau ar 1 Medi;

mae i "canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion" ("*pupils' attainment results*") yr ystyr a bennir yn rheoliad 8(3);

ystyr "cyflawni'r dangosydd pynciau craidd" ("*to achieve the core subject indicator*") mewn perthynas â disgyblion a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol y safant yr arholiadau perthnasol ynddi, yw bod y disgyblion hynny wedi cyflawni lefel 2 FfCC neu well gyda chywethedd o 20% neu fwy mewn cymhwysterau perthnasol a gymeradwywyd;

ystyr "cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd" ("*approved relevant qualification*") yw cymhwyster o fewn yr ystyr a roddir i "relevant qualification" gan adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997(3);

ystyr "darparwydd dysgu seiliedig ar waith" ("*work-based learning provider*") yw cyflogwr neu gorff sy'n darparu rhaglen neu raglenni addysg yn y gweithle i ddisgyblion neu fyfyrwyr fel rhan o gwrw

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

"to achieve the core subject indicator" ("*cyflawni'r dangosydd pynciau craidd*") means in relation to pupils who will attain the age of 16 years during the school year in which they take the relevant examinations, that those pupils are to have achieved NQF level 2 or above with an equivalence of 20% or more in approved relevant qualifications;

"approved relevant qualification" ("*cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd*") is a qualification within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997(1);

"current school year" ("*y flwyddyn ysgol gyfredol*") means the school year in which the review is taking place;

"core subjects" ("*y pynciau craidd*") means the core subjects within the meaning of section 105(2) of the 2002 Act(2);

"data set" ("*set ddata*") means the summary of a school's performance in teacher assessments, approved qualifications and absence rates compiled and provided to the school by the Welsh Ministers;

"following school year" ("*y flwyddyn ysgol ddilynol*") means the school year immediately following the school year in question;

"GCSE" ("*TGAU*") means General Certificate of Secondary Education;

"GCSE examination" ("*arholiad TGAU*") means an examination, the course leading to which is a full GCSE course of study;

"level 4" ("*lefel 4*") means level 4 of the National Curriculum level scale as determined by the results of teacher assessments;

"level 5" ("*lefel 5*") means level 5 of the National Curriculum level scale as determined by the results of teacher assessments;

(1) Diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 30 gan adran 103(1)(a) o Ddeddf Addysg 2005 (p.18). Diwygiwyd is-adrannau (3) a (4) o adran 30 gan adran 103(1)(b) o Ddeddf Addysg 2005 (p.18).

(2) Diwygiwyd adran 103 gan baragraffau 11 a 15 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1). Y gorchymynion a wnaed o dan yr adran honno yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2915 (Cy.254)) a Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1394 (Cy.108)).

(3) Amnewidiwyd is-adran (5) o adran 30 gan baragraff 15(6) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22).

(1) Sub-section (5) of section 30 was substituted by paragraph 15(6) of Schedule 12 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c.22).

(2) Amended by section 21(1) and (6) of the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5).

y maent wedi ymrestru arno neu y byddant yn ymrestru arno mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "disgyblion cyfnod allweddol dau" ("*second key stage pupils*") yw disgyblion sydd yng nghyfnod allweddol dau, y cyfeirir ato fel "the second key stage" yn adran 103(1)(b) o Ddeddf 2002;

ystyr "disgyblion cyfnod allweddol tri" ("*third key stage pupils*") yw disgyblion sydd yng nghyfnod allweddol tri, y cyfeirir ato fel "the third key stage" yn adran 103(1)(c) o Ddeddf 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu ddiwrnod sy'n wyl banc o fewn yr ystyr a roddir i "bank holiday" gan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

ystyr "dyddiad cyfrifo Cyfrifiad Ysgolion" ("*Schools' Census enumeration date*") yw'r dyddiad y cyfeirir ato gan Weinidogion Cymru yn flynyddol, wrth iddynt wneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir yn unol ag adran 29(1) o Ddeddf Addysg 1996(2);

ystyr "FfCC" ("*NQF*") yw'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a ffurfir gan gymwysterau o fewn yr ystyr a roddir i "relevant qualification" gan adran 30(5) o Ddeddf Addysg 1997, sy'n cael eu dyfarnu neu eu dilysu gan gorff a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(e) o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r cymhwyster;

ystyr "y flwyddyn ysgol berthnasol" ("*relevant school year*") mewn perthynas ag ysgol yw'r flwyddyn ysgol y cyhoeddir adroddiad blynyddol yr ysgol mewn perthynas â hi;

ystyr "y flwyddyn ysgol ddilynol" ("*following school year*") yw'r flwyddyn ysgol sy'n dilyn yn union ar ôl y flwyddyn ysgol o dan sylw;

ystyr "y flwyddyn ysgol flaenorol" ("*previous school year*") yw'r flwyddyn ysgol yn union cyn y flwyddyn ysgol o dan sylw;

"y flwyddyn ysgol gyfredol" ("*current school year*") yw'r flwyddyn ysgol y mae'r adolygiad yn digwydd ynddi;

"level 1 threshold" ("*trothwy lefel 1*") means the achievement by a pupil of qualification at NQF level 1 which is equivalent to 5 GCSE qualifications at grades D to G;

"level 2 threshold" ("*trothwy lefel 2*") means the achievement by a pupil of qualification at NQF level 2 which is equivalent to 5 GCSE qualifications at grades A* to C;

"NQF" ("*FfCC*") means the National Qualifications Framework comprising relevant qualifications within the meaning of section 30(5) of the Education Act 1997 which is awarded or authenticated by a body which is recognised by the Welsh Ministers under section 30(1)(e) of that Act in respect of the qualification;

"NQF level" ("*lefel FfCC*") means the level or levels set out in NQF in relation to a relevant qualification;

"performance targets" ("*targedau perfformiad*") means the targets which schools' governing bodies are required to set by virtue of regulations 3, 4 and 5;

"previous school year" ("*y flwyddyn ysgol flaenorol*") means the school year immediately preceding the school year in question;

"pupils' attainment results" ("*canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion*") has the meaning specified in regulation 8(3);

"relevant school year" ("*y flwyddyn ysgol berthnasol*") in relation to a school means the school year in relation to which the school's annual report is published;

"school's annual report" ("*adroddiad blynyddol yr ysgol*") means the report to parents which the governing body of a school are required to prepare and publish for every school year by virtue of the school's instrument of government or section 30 of the 2002 Act(1);

"Schools' Census enumeration date" ("*dyddiad cyfrifo Cyfrifiad Ysgolion*") means the date by reference to which the Welsh Ministers annually require information to be provided relating to maintained schools pursuant to section 29(1) of the Education Act 1996(2);

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") means a period of twelve months beginning on 1 September;

(1) 1971 c.80.

(2) 1996 p.56. Diwygiwyd is-adran (1) gan O.S. 2010/1158.

(1) Sub-sections (1) and (2) of section 30 were amended by section 103(1)(a) of the Education Act 2005 (c.18). Sub-sections (3) and (4) of section 30 were amended by section 103(1)(b) of the Education Act 2005 (c.18).

(2) 1996 c.56. Sub-section (1) was amended by S.I. 2010/1158.

ystyr "y flwyddyn ysgol nesaf ond un" ("*school year next but one*") yw'r flwyddyn ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol o dan sylw;

ystyr "y flwyddyn ysgol o dan sylw" ("*school year in question*") mewn perthynas â gosod unrhyw darged yw'r flwyddyn ysgol y gosodir y targed ynddi;

ystyr "lefel 4" ("*level 4*") yw lefel 4 ar raddfa lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel a ddyfernir gan ganlyniadau asesiadau athrawon;

ystyr "lefel 5" ("*level 5*") yw lefel 5 ar raddfa lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel a ddyfernir gan ganlyniadau asesiadau athrawon;

ystyr "lefel FfCC" ("*NQF level*") yw'r lefel neu'r lefelau a osodir yn y FfCC mewn perthynas â chymhwyster perthnasol;

ystyr "y pynciau craidd" ("*core subjects*") yw'r pynciau craidd o fewn ystyr adran 105(2) o Ddeddf 2002(1);

ystyr "set ddata" ("*data set*") yw'r crynodeb o berfformiad ysgol mewn asesiadau athrawon, cymwysterau cymeradwy a chyfraddau absenoldeb a grynhowyd ac a ddarparwyd ar gyfer yr ysgol gan Weinidogion Cymru;

ystyr "targedau perfformiad" ("*performance targets*") yw'r targedau y mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu eu gosod yn rhinwedd rheoliadau 3, 4 a 5;

ystyr "TGAU" ("*GCSE*") yw Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd;

ystyr "trothwy lefel 1" ("*level 1 threshold*") yw'r cyflawniad gan ddisgybl o gymhwyster FfCC ar lefel 1 sy'n gyfwerth â 5 cymhwyster TGAU ar raddau D i G; ac

ystyr "trothwy lefel 2" ("*level 2 threshold*") yw'r cyflawniad gan ddisgybl o gymhwyster FfCC ar lefel 2 sy'n gyfwerth â 5 cymhwyster TGAU ar raddau A* i C.

"school year in question" ("*y flwyddyn ysgol o dan sylw*") in relation to the setting of any target means the school year in which the target is being set;

"school year next but one" ("*y flwyddyn ysgol nesaf ond un*") means the school year beginning 2 years after the beginning of the school year in question;

"second key stage pupils" ("*disgyblion cyfnod allweddol dau*") means pupils who are in the second key stage referred to in section 103(1)(b) of the 2002 Act;

"teacher assessments" ("*asesiadau athrawon*") means the assessments of pupils carried out by teachers for the purpose of determining the level of attainment they have achieved in English, Welsh, science or mathematics, and for which assessment provision is made by or under orders made under section 108(3)(c) of the Education Act 2002(1) in force when the assessments are carried out;

"third key stage pupils" ("*disgyblion cyfnod allweddol tri*") means pupils who are in the third key stage referred to in section 103(1)(c) of the 2002 Act;

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, Sunday or a day which is a bank holiday within the meaning of section 1 of the Banking and Financial Dealings Act 1971(2); and

"work-based learning provider" ("*darparydd dysgu seiliedig ar waith*") means an employer or body who provides a programme or programmes of education in the work place to pupils or students as part of a course on which they are enrolled or will be enrolled at any school or further education institution.

(1) Diwygiwyd gan adran 21(1) a (6) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5).

(1) Section 103 was amended by paragraphs 11 and 15 of the Schedule to the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1). The orders made under that section are the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004 (S.I. 2004/2915 (W.254)) and the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1394 (W.108)).

(2) 1971 c.80.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ddisgybl yn ennill cymwysterau, neu at ddyfarnu cymwysterau iddo, ar lefel FfCC mewn cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd, erbyn diwedd unrhyw flwyddyn ysgol, i'w ddehongli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y disgybl hwnnw'n ennill y cymhwyster hwnnw, neu at ddyfarnu iddo'r cymhwyster hwnnw yn y flwyddyn ysgol—

- (a) pan yw'n sefyll yr arholiad hwnnw, neu
- (b) (yn ôl fel y digwydd) pan yw'n cwblhau'r cwrs sy'n arwain at ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw,

pa un a wneir y penderfyniad i ddyfarnu'r cymhwyster iddo yn ystod blwyddyn ysgol ddiweddarach ai peidio.

Targedau perfformiad ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol dau

3.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob ysgol lle y darperir addysg sy'n addas i ofynion disgyblion yng nghyfnod allweddol dau.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ysgol, osod a chyflwyno i'r awdurdod lleol y targedau a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer bob un o'r cyflawniadau a bennir ym mharagraff (4) mewn cysylltiad â pherfformiad mewn asesiadau athrawon y disgyblion a fydd ym flwyddyn derfynol cyfnod allweddol dau pan wneir yr asesiadau hynny.

(3) Y targedau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) targedau terfynol mewn cysylltiad â pherfformiad y grŵp perthnasol o ddisgyblion cyfnod allweddol dau mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, sef y targedau adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol;
- (b) targedau adolygedig mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol ddilynol sef y targedau dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny; ac
- (c) targedau dros dro mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

(4) Y cyflawniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu well ym mhob un o'r pynciau craidd unigol; a
- (b) y tri chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o

(2) Any reference in these Regulations to a pupil achieving or being awarded qualifications at a NQF level in an approved relevant qualification, by the end of any school year, is to be construed for the purposes of these Regulations as a reference to that pupil achieving or being awarded that qualification in the school year in which he or she—

- (a) takes that examination, or
- (b) (as the case may be) completes the course leading to the award of that qualification,

and irrespective of whether the decision to award the qualification is made in a later school year.

Performance targets for pupils in the second key stage

3.—(1) This regulation applies to every school where education is provided which is suitable to the requirements of pupils in the second key stage.

(2) The governing body of a school to which this regulation applies must, by no later than 31 December in every school year, set and submit to the local authority the targets specified in paragraph (3) for each of the achievements specified in paragraph (4) in connection with the performance in teacher assessments of pupils who will be in the final year of the second key stage when those assessments are carried out.

(3) The targets referred to in paragraph (2) are—

- (a) final targets in connection with the performance of the relevant group of second key stage pupils in teacher assessments to be carried out at or near the end of the current school year, being the reviewed targets set in the previous school year;
- (b) reviewed targets in teacher assessments to be carried out at or near the end of the following school year being the provisional targets set in the previous school year but revised if the governing body deem it necessary to do so; and
- (c) provisional targets in teacher assessments to be carried out at or near the end of the school year next but one.

(4) The achievements referred to in paragraph (2) are—

- (a) the percentage of pupils to achieve level 4 or above for each of the core subjects; and
- (b) the three achievements set by the governing body based on its evaluation of the

berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel a bennwyd yn y set ddata ar gyfer yr ysgol honno mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol.

(5) Ym mharagraff (3)(a) ystyr "y grŵp perthnasol o ddisgyblion cyfnod allweddol dau", mewn perthynas ag ysgol ac mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol yw'r holl bersonau y mae'r corff llywodraethu'n rhagweld a fydd, yn y flwyddyn ysgol ddilynol—

- (a) yn ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno;
a
- (b) ym flwyddyn derfynol cyfnod allweddol dau.

(6) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar unrhyw darged a gyflwynwyd gan gorff llywodraethu o dan baragraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o'r ffaith honno i'r corff llywodraethu o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl cael y targedau gan y corff llywodraethu, a rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno targed diwygiedig o fewn 21 diwrnod gwaith ar ôl cael hysbysiad o'r fath.

(7) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar darged diwygiedig a gyflwynwyd o dan baragraff (6) rhaid i'r awdurdod lleol osod y targed.

Targedau perfformiad ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol tri

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob ysgol lle y darperir addysg sy'n addas i ofynion disgyblion yng nghyfnod allweddol tri.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ysgol, osod a chyflwyno i'r awdurdod lleol y targedau a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer bob un o'r cyflawniadau a bennir ym mharagraff (4) mewn cysylltiad â pherfformiad mewn asesiadau athrawon y disgyblion a fydd ym flwyddyn derfynol cyfnod allweddol tri pan wneir yr asesiadau hynny.

(3) Y targedau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) targedau terfynol mewn cysylltiad â pherfformiad y grŵp perthnasol o ddisgyblion cyfnod allweddol tri mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, sef y targedau adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol;
- (b) targedau adolygedig mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol ddilynol, sef y targedau dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny; ac
- (c) targedau dros dro mewn asesiadau athrawon

performance of pupils at the school in teacher assessments as set out in the data set for that school in relation to the previous school year.'

(5) In paragraph (3)(a) "the relevant group of second key stage pupils", in relation to a school and to any school year means all persons who the governing body anticipate will, in the following school year—

- (a) be registered pupils at that school; and
- (b) be in the final year of the second key stage.

(6) Where the local authority is not satisfied with any target submitted by a governing body under paragraph (2), it must within 3 working days of receipt of the targets from the governing body give notice to the governing body of that fact and the governing body must submit a revised target within 21 working days of receipt of such a notice.

(7) Where the local authority is not satisfied with a revised target submitted under paragraph (6) it must set the target.

Performance targets for pupils in the third key stage

4.—(1) This regulation applies to every school where education is provided which is suitable to the requirements of pupils in the third key stage.

(2) The governing body of a school to which this regulation applies must, by no later than 31 December in every school year, set and submit to the local authority the targets specified in paragraph (3) for each of the achievements specified in paragraph (4) in connection with the performance in teacher assessments of pupils who will be in the final year of the third key stage when those assessments are carried out.

(3) The targets referred to in paragraph (2) are—

- (a) final targets in connection with the performance of the relevant group of third key stage pupils in teacher assessments to be carried out at or near the end of the current school year, being the reviewed targets set in the previous school year;
- (b) reviewed targets in teacher assessments to be carried out at or near the end of the following school year, being the provisional targets set in the previous school year but revised if the governing body deem it necessary to do so; and
- (c) provisional targets in teacher assessments to be

sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

(4) Y cyflawniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu well ym mhob un o'r pynciau craidd unigol; a
- (b) y tri chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel a bennwyd yn y set ddata ar gyfer yr ysgol honno mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol.

(5) Ym mharagraff (3)(a) ystyr "y grŵp perthnasol o ddisgyblion cyfnod allweddol tri", mewn perthynas ag ysgol ac mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol yw'r holl bersonau y mae'r corff llywodraethu'n rhagweld a fydd, yn y flwyddyn ysgol ddilynol—

- (a) yn ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno; a
- (b) ym mlwyddyn derfynol cyfnod allweddol tri.

(6) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar unrhyw darged a gyflwynwyd gan gorff llywodraethu o dan baragraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o'r ffaith honno i'r corff llywodraethu o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl cael y targedau gan y corff llywodraethu, a rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno targed diwygiedig o fewn 21 diwrnod gwaith ar ôl cael hysbysiad o'r fath.

(7) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar darged diwygiedig a gyflwynwyd o dan baragraff (6) rhaid i'r awdurdod lleol osod y targed.

Targedau perfformiad ar gyfer disgyblion a fydd yn cyrraedd 16 oed

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob ysgol lle y darperir addysg sy'n addas i ofynion disgyblion sydd wedi cyrraedd 15 oed.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi, yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ysgol, osod a chyflwyno i'r awdurdod lleol y targedau a bennir ym mharagraff (3) ar gyfer bob un o'r cyflawniadau a bennir ym mharagraff (4) mewn cysylltiad â pherfformiad mewn arholiadau y disgyblion a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol y byddant yn sefyll yr arholiadau hynny ynddi.

(3) Y targedau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) targedau terfynol mewn cysylltiad â pherfformiad y grŵp perthnasol o ddisgyblion a fydd yn cyrraedd 16 oed, mewn arholiadau sydd i'w rhoi ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, sef y

carried out at or near the end of the school year next but one.

(4) The achievements referred to in paragraph (2) are—

- (a) the percentage of pupils to achieve level 5 or above for each of the core subjects; and
- (b) the three achievements set by the governing body based on its evaluation of the performance of pupils at the school in teacher assessments as set out in the data set for that school in relation to the previous school year.

(5) In paragraph (3)(a) "the relevant group of third key stage pupils", in relation to a school and to any school year means all persons who the governing body anticipate will, in the following school year—

- (a) be registered pupils at that school; and
- (b) be in the final year of the third key stage.

(6) Where the local authority is not satisfied with any target submitted by a governing body under paragraph (2), it must within 3 working days of receipt of the targets from the governing body give notice to the governing body of that fact and the governing body must submit a revised target within 21 working days of receipt of such a notice.

(7) Where the local authority is not satisfied with a revised target submitted under paragraph (6) it must set the target.

Performance targets for pupils who will attain the age of 16 years

5.—(1) This regulation applies to every school where education is provided which is suitable to the requirements of pupils who have attained the age of 15 years.

(2) The governing body of a school to which this regulation applies must, by no later than 31 December in every school year, set and submit to the local authority the targets specified in paragraph (3) for each of the achievements specified in paragraph (4) in connection with the performance in examinations of pupils who will attain the age of 16 years during the school year in which they take those examinations.

(3) The targets referred to in paragraph (2) are—

- (a) final targets in connection with the performance of the relevant group of pupils who will attain the age of 16 years, in examinations to be administered at or near the end of the current school year, being the

targedau adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol;

- (b) targedau adolygedig mewn asesiadau athrawon sydd i'w cyflawni ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol ddilynol sef y targedau dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny; ac
- (c) targedau dros dro mewn arholiadau sydd i'w rhoi ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

(4) Y cyflawniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

- (a) y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd;
- (b) y tri chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel a bennwyd yn y set ddata ar gyfer yr ysgol honno mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol;
- (c) y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 1;
- (ch) y ganran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy lefel 2 gan gynnwys cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg; a
- (d) y ganran o'r disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol heb gyflawni cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd.

(5) Ym mharagraff (4) nid yw cyfeiriadau at ddisgyblion sy'n ymadael â'r ysgol yn cynnwys disgyblion sy'n trosglwyddo i sefydliad addysgol arall ar sail lawnamser neu i ddarparydd dysgu seiliedig ar waith.

(6) Ym mharagraff (3)(a) ystyr "y grŵp perthnasol o ddisgyblion a fydd yn cyrraedd 16 oed", mewn perthynas ag ysgol ac mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol yw'r holl bersonau—

- (a) mae'r corff llywodraethu'n rhagweld y byddant yn ddisgyblion cofrestredig ar y dyddiad cyfrifo Cyfrifiad Ysgolion yn y flwyddyn ysgol ddilynol; a
- (b) a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ddilynol honno.

(7) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar unrhyw darged a gyflwynwyd gan gorff llywodraethu o dan baragraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o'r ffaith honno i'r corff llywodraethu o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl cael y targedau gan y corff llywodraethu, a rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno targed diwygiedig o fewn 21 diwrnod gwaith ar ôl cael hysbysiad o'r fath.

reviewed targets set in the previous school year;

- (b) reviewed targets in examinations to be administered at or near the end of the following school year, being the provisional targets set in the previous school year but revised if the governing body deem it necessary to do so; and
- (c) provisional targets in examinations to be administered at or near the end of the school year next but one.

(4) The achievements referred to in paragraph (2) are—

- (a) the percentage of pupils to achieve the core subject indicator;
- (b) the three achievements set by the governing body based on its evaluation of the performance of pupils at the school in teacher assessments as set out in the data set for that school in relation to the previous school year;
- (c) the percentage of pupils to achieve the level 1 threshold;
- (d) the percentage of pupils to achieve the level 2 threshold including an approved relevant qualification in English or Welsh first language and mathematics; and
- (e) the percentage of pupils to leave school without achieving an approved relevant qualification.

(5) In paragraph (4) references to pupils leaving school do not include pupils transferring to another educational institution on a full-time basis or a work-based learner provider.

(6) In paragraph (3)(a) "the relevant group of pupils who will attain the age of 16 years", in relation to a school and to any school year means all persons—

- (a) who the governing body anticipate will be registered pupils at the Schools' Census enumeration date in the following school year; and
- (b) who will attain the age of 16 years during that following school year.

(7) Where the local authority is not satisfied with any target submitted by a governing body under paragraph (2), it must within 3 working days of receipt of the targets from the governing body give notice to the governing body of that fact and the governing body must submit a revised target within 21 working days of receipt of such a notice.

(8) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar darged diwygiedig a gyflwynwyd o dan baragraff (7) rhaid i'r awdurdod lleol osod y targed.

Targedau Absenoldeb

6.—(1) Erbyn 31 Rhagfyr fan bellaf ym mhob blwyddyn ysgol, rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir (heblaw ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty) osod a chyflwyno i'r awdurdod lleol y targedau a bennir ym mharagraff (2) ar gyfer y gostyngiad yn lefel cyfradd absenoldeb y disgyblion dydd perthnasol yn yr ysgol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), y targedau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

- (a) targed terfynol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol, sef y targed adolygedig a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol;
- (b) targed adolygedig ar gyfer y flwyddyn ysgol ddilynol, sef y targed dros dro a osodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol ond a ddiwygir os yw'r corff llywodraethu yn barnu ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny; ac
- (c) targed dros dro ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

(3) Os nad yw corff llywodraethu wedi gosod targedau absenoldeb o'r blaen dan y rheoliadau hyn, addesir paragraff (2) fel a ganlyn mewn perthynas â'r tro cyntaf y mae'n ofynnol gosod targedau—

- (a) yn is-baragraff (a), hepgorer y gair "terfynol" a'r geiriau sy'n dilyn "y flwyddyn ysgol gyfredol" hyd at ddiwedd yr is-baragraff; a
- (b) yn is-baragraff (b), hepgorer y gair "adolygedig" a'r geiriau sy'n dilyn "y flwyddyn ysgol ddilynol" hyd at ddiwedd yr is-baragraff.

(4) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar unrhyw darged a gyflwynwyd gan gorff llywodraethu o dan baragraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o'r ffaith honno i'r corff llywodraethu o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl cael y targedau gan y corff llywodraethu, a rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno targed diwygiedig o fewn 21 diwrnod gwaith ar ôl cael hysbysiad o'r fath.

(5) Os nad yw awdurdod lleol yn fodlon ar darged diwygiedig a gyflwynwyd o dan baragraff (4) rhaid i'r awdurdod lleol osod y targed.

(6) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 8—

- (a) ystyr "absenoldeb" yw achlysur pan fo disgybl dydd perthnasol wedi ei gofnodi'n absennol o'r ysgol yn unol â Rheoliadau (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(1);
- (b) ystyr "disgybl dydd perthnasol" yw disgybl cofrestredig mewn oedran ysgol gorfodol ac eithrio disgybl preswyl;

(8) Where the local authority is not satisfied with a revised target submitted under paragraph (7) it must set the target.

Absence Targets

6.—(1) By no later than 31 December in every school year, the governing body of every maintained school (other than a special school established in a hospital) must set and submit to the local authority the targets specified in paragraph (2) for the level to which the absence rate on the part of relevant day pupils at the school is to be reduced.

(2) Subject to paragraph (3), the targets referred to in paragraph (1) are—

- (a) a final target for the current school year, being the reviewed target set in the previous school year;
- (b) a reviewed target for the following school year, being the provisional target set in the previous school year but revised if the governing body deem it necessary to do so; and
- (c) a provisional target for the school year next but one.

(3) Where a governing body has not previously set absence targets under these regulations, paragraph (2) is modified as follows in respect of the first occasion on which targets are required to be set—

- (a) in sub-paragraph (a), the word "final" and the words following "current school year" to the end of the sub-paragraph are omitted; and
- (b) in sub-paragraph (b), the word "reviewed" and the words following "following school year" to the end of the sub-paragraph are omitted.

(4) Where the local authority is not satisfied with any target submitted by a governing body under paragraph (2), it must within 3 working days of receipt of the targets from the governing body give notice to the governing body of that fact; and the governing body must submit a revised target within 21 working days of receipt of such a notice.

(5) Where the local authority is not satisfied with a revised target submitted under paragraph (4), it must set the target.

(6) In this regulation and in regulation 8—

- (a) "absence" means an occasion when a relevant day pupil is recorded as absent from a school in accordance with the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010(1);
- (b) "relevant day pupil" means a registered pupil of compulsory school age apart from a boarder;

- (c) ystyr "y gyfradd absenoldeb" yw cyfanswm nifer yr absenoldebau disgwylidig yn y cyfnod cymwys yn ystod y flwyddyn ysgol, a fynegir fel canran o gyfanswm posibl y presenoldebau disgyblion yn y cyfnod hwnnw;
- (ch) ystyr "y cyfnod cymwys" yw —
 - (i) ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd, y cyfnod sy'n cychwyn ar ddechrau blwyddyn ysgol ac sy'n dod i ben ar ddiwrnod olaf y tymor ysgol olaf yn y flwyddyn ysgol honno; a
 - (ii) ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd, y cyfnod sy'n cychwyn ar ddechrau blwyddyn ysgol ac sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ysgol sy'n digwydd ar y dydd Gwener cyn y dydd Llun olaf ym mis Mai yn y flwyddyn ysgol honno; a
- (d) ystyr "cyfanswm posibl y presenoldebau" yw'r rhif a geir drwy luosi nifer y disgyblion dydd perthnasol yn yr ysgol â nifer y sesiynau ysgol sydd yn y cyfnod cymwys yn y flwyddyn ysgol.

Addasu targedau

7.—(1) Ni cheir addasu targed perfformiad ar ôl ei osod oni fydd yr awdurdod lleol wedi cydsynio â hynny ymlaen llaw.

(2) Ni chaiff corff llywodraethu addasu targed absenoldeb terfynol a osodwyd y corff llywodraethu o dan reoliad 6 oni fydd yr awdurdod lleol wedi cydsynio â hynny ymlaen llaw.

Cyhoeddi gwybodaeth

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol y mae rheoliadau 3, 4, 5, neu 6 yn gymwys iddi gyhoeddi gwybodaeth am y canlynol ynghyd ag adroddiad blynyddol yr ysgol, ar gyfer pob blwyddyn ysgol—

- (a) y canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion,
- (b) y targedau perfformiad,
- (c) y gyfradd absenoldeb, ac
- (ch) y targedau absenoldeb,

a bennir yn Atodlen 2.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw ysgol y mae rheoliadau 3, 4 neu 5 yn gymwys iddi, nid yw paragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi unrhyw wybodaeth—

- (a) am y targedau perfformiad y cyfeirir atynt yn y rheoliadau hynny o ran—
 - (i) y grŵp perthnasol o ddisgyblion cyfnod allweddol dau (fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(6)),

- (c) "the absence rate" means the total number of absences expected in the applicable period during the school year, expressed as a percentage of the total possible attendances by pupils in that period;
- (d) "the applicable period" means—
 - (i) for primary school pupils the period starting with the beginning of a school year and finishing with the last day of the last school term in that school year; and
 - (ii) for secondary school pupils the period starting with the beginning of a school year and finishing with the end of the school day falling on the Friday before the last Monday in May in that school year; and
- (e) "the total possible attendances" means the number produced by multiplying the number of relevant day pupils at a school by the number of school sessions in the applicable period in a school year.

Alteration of targets

7.—(1) A performance target may not be modified after it has been set without the prior agreement of the local authority.

(2) A final absence target set by a governing body under regulation 6 must not be modified by the governing body without the prior agreement of the local authority.

Publication of information

8.—(1) Subject to paragraph (2) the governing body of every school to which regulations 3, 4, 5, or 6 applies must publish with the school's annual report for every school year the information about—

- (a) pupils' attainment results,
- (b) performance targets,
- (c) the absence rate, and
- (d) absence targets,

specified in Schedule 2.

(2) In relation to any school to which regulations 3, 4 or 5 applies, paragraph (1) does not require the publication of any information—

- (a) about the performance targets referred to in those regulations in relation to—
 - (i) the relevant group of second key stage pupils (as defined in regulation 3(6)),

- (ii) y grŵp perthnasol o ddisgyblion cyfnod allweddol tri (fel y'i diffinnir yn rheoliad 4(5)), neu
- (iii) y grŵp perthnasol o ddisgyblion a fydd yn cyrraedd 16 oed (fel y'i diffinnir yn rheoliad 5(7)),

os oedd y grŵp hwnnw, ar yr adeg y cododd y ddyletswydd ar y corff llywodraethu i osod targedau o'r fath, yn cynnwys dim mwy na deg o bersonau; a

- (b) am ganlyniadau cyrhaeddiad disgyblion mewn unrhyw flwyddyn ysgol, mewn perthynas ag unrhyw grŵp o ddisgyblion—
 - (i) sydd ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd blwyddyn derfynol cyfnod allweddol dau,
 - (ii) sydd ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd blwyddyn derfynol cyfnod allweddol tri, neu
 - (iii) sydd wedi cyrraedd 16 oed,

yn ystod y flwyddyn ysgol o dan sylw os yw'r grŵp yn cynnwys dim mwy na deg o bersonau

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion" yw —

- (a) mewn perthynas â disgyblion ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd blwyddyn derfynol cyfnod allweddol dau mewn unrhyw flwyddyn ysgol mewn ysgol y mae rheoliad 3 yn gymwys iddi, y ganran sydd wedi cyflawni—
 - (i) lefel 4 neu well mewn asesiadau athrawon ym mhob un o'r pynciau craidd, a
 - (ii) y tri chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel a bennwyd yn y set ddata ar gyfer yr ysgol honno mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol; a
- (b) mewn perthynas â disgyblion ar ddiwedd neu'n agos at ddiwedd blwyddyn derfynol cyfnod allweddol tri mewn unrhyw flwyddyn ysgol mewn ysgol y mae rheoliad 4 yn gymwys iddi, y ganran sydd wedi cyflawni—
 - (i) lefel 5 neu well mewn asesiadau athrawon ym mhob un o'r pynciau craidd, a
 - (ii) y tri chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel a bennwyd yn y set ddata ar gyfer yr ysgol honno mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol; ac
- (c) mewn perthynas â disgyblion a gyrhaeddodd 16 oed mewn unrhyw flwyddyn ysgol mewn ysgol y mae rheoliad 5 yn gymwys iddi, y ganran sy'n—
 - (i) cyflawni'r dangosydd pwnc craidd;
 - (ii) cyflawni'r tri chyflawniad a osodwyd gan y corff llywodraethu ar sail ei werthusiad o

- (ii) the relevant group of third key stage pupils (as defined in regulation 4(5)), or
- (iii) the relevant group of pupils who will attain the age of 16 years (as defined in regulation 5(7)),

where that group, at the time when the governing body's duty to set such targets for that year arose, consisted of ten or fewer persons; and

- (b) about pupils' attainment results in any school year in relation to any group of pupils—
 - (i) at or near the end of the final year of the second key stage,
 - (ii) at or near the end of the final year of the third key stage, or
 - (iii) who attained the age of 16 years,

during the school year in question where the group consisted of ten or fewer persons.

(3) In this regulation "pupils' attainment results" means—

- (a) in relation to pupils at or near the end of the final year of the second key stage in any school year at a school to which regulation 3 applies the percentage who achieved—
 - (i) level 4 or above in teacher assessments for each of the core subjects, and
 - (ii) the three achievements set by the governing body based on its evaluation of the performance of pupils at the school in teacher assessments as set out in the data set for that school in relation to the previous school year; and
- (b) in relation to pupils at or near the end of the final year of the third key stage in any school year at a school to which regulation 4 applies the percentage who achieved—
 - (i) level 5 or above in teacher assessments for each of the core subjects, and
 - (ii) the three achievements set by the governing body based on its evaluation of the performance of pupils at the school in teacher assessments as set out in the data set for that school in relation to the previous school year; and
- (c) in relation to pupils who attained the age of 16 years in any school year at a school to which regulation 5 applies the percentage who—
 - (i) achieve the core subject indicator;
 - (ii) achieve the three achievements set by the governing body based on its evaluation of

berfformiad disgyblion yn yr ysgol mewn asesiadau athrawon fel a bennwyd yn y set ddata ar gyfer yr ysgol honno mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol flaenorol;

- (iii) cyflawni trothwy lefel 1;
- (iv) cyflawni trothwy lefel 2;
- (v) cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg; a
- (vi) ymadael â'r ysgol heb ennill cymhwyster perthnasol a gymeradwywyd.

(4) Mae paragraff (6) o reoliad 5 yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwn fel y mae'n gymwys at ddibenion rheoliad 5.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "disgybl" mewn perthynas ag ysgol a blwyddyn ysgol, yw person a oedd wedi ei gofrestru yn ddisgybl yn yr ysgol honno ar y dyddiad cyfrifo Cyfrifiad Ysgolion yn y flwyddyn honno.

the performance of pupils at the school in teacher assessments as set out in the data set for that school in relation to the previous school year;

- (iii) achieve the level 1 threshold;
- (iv) achieve the level 2 threshold;
- (v) achieve the level 2 threshold including an approved relevant qualification in English or Welsh first language and mathematics; and
- (vi) leave school without achieving an approved relevant qualification.

(4) Paragraph (6) of regulation 5 applies for the purposes of this regulation as it applies for the purposes of regulation 5.

(5) For the purposes of this regulation "pupil" in relation to a school and a school year, means a person who was registered as a pupil at that school on the Schools' Census enumeration date in that year.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Gorffennaf 2011

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

29 July 2011

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Rheoliad 1

Regulation 1

RHEOLIADAU A DDIRYMWYD

REGULATIONS REVOKED

<i>Rheoliadau a ddirymwyd</i>	<i>Cyfeirnodau</i>	<i>Rhychwant y dirymu</i>
Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 1999	O.S. 1999/1811	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004	O.S. 2004/2914	Rheoliad 2
Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005	O.S. 2005/1396	Rheoliad 2
Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) (Diwygio) 2006	O.S. 2006/125	Y Rheoliadau cyfan

<i>Regulations revoked</i>	<i>References</i>	<i>Extent of revocation</i>
The Education (School Performance and Absence Targets) (Wales) Regulations 1999	S.I. 1999/1811	The whole regulations
The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2004	S.I. 2004/2914	Regulation 2
The National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005	S.I. 2005/1396	Regulation 2
The Education (School Performance and Unauthorised Absence Targets) (Wales) (Amendment) Regulations 2006	S.I. 2006/125	The whole regulations

ATODLEN 2

Rheoliad 8

GWYBODAETH AM GANLYNIADAU CYRHAEDDIAD DISGYBLION, TARGEDAU PERFFORMIAD, CYFRADDAU ABSENOLDEB A THARGEDAU AR GYFER ABSENOLDEBAU, SYDD I'W CYHOEDDI MEWN ADRODDIADAU BLYNYDDOL

1. Pan gyhoeddir adroddiad blynyddol ysgol mewn perthynas â blwyddyn ysgol berthnasol ar ôl diwedd y flwyddyn honno, rhaid i adroddiad blynyddol yr ysgol mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol berthnasol gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

- (a) canlyniadau cyrhaeddiad y disgyblion yn y flwyddyn ysgol berthnasol;
- (b) y targedau perfformiad a bennir ym mharagraff 2;
- (c) cyfradd absenoldeb yr ysgol yn y flwyddyn ysgol berthnasol;
- (ch) y targedau absenoldeb a bennir ym mharagraff 2; a
- (d) datganiad sy'n nodi i ba raddau yr oedd—
 - (i) canlyniadau cyrhaeddiad y disgyblion, a
 - (ii) cyfradd absenoldeb yr ysgol,

yn y flwyddyn ysgol berthnasol yn cyrraedd y targedau terfynol cyfatebol a osodwyd ar gyfer yr un flwyddyn.

2. Y targedau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1(b) ac (ch) yw—

- (a) yr holl dargedau terfynol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ysgol berthnasol;
- (b) yr holl dargedau terfynol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dilyn yn union ar ôl y flwyddyn ysgol berthnasol; ac
- (c) yr holl dargedau adolygedig a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ond un.

3. Pan gyhoeddir adroddiad blynyddol ysgol mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol berthnasol yn ystod y flwyddyn honno, rhaid i adroddiad blynyddol yr ysgol mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol berthnasol gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

- (a) canlyniadau cyrhaeddiad y disgyblion yn y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol berthnasol;
- (b) targedau perfformiad fel a bennir ym mharagraff 4;
- (c) cyfradd absenoldeb yr ysgol yn y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol berthnasol;
- (ch) y targedau absenoldeb a bennir ym mharagraff 4; a

SCHEDULE 2

Regulation 8

INFORMATION ABOUT PUPILS' ATTAINMENT RESULTS, PERFORMANCE TARGETS, ABSENCE RATES AND TARGETS FOR ABSENCES TO BE PUBLISHED IN ANNUAL REPORTS

1. Where a school's annual report in relation to the relevant school year is published after the end of that year, the school's annual report in relation to the relevant school year must contain the following information—

- (a) pupils' attainment results in the relevant school year;
- (b) the performance targets specified in paragraph 2;
- (c) the school's absence rate in the relevant school year;
- (d) the absence targets specified in paragraph 2; and
- (e) a statement setting out the extent to which—
 - (i) pupils' attainment results, and
 - (ii) the school's absence rate,

in the relevant school year met the corresponding final targets set for the same year.

2. The targets referred to in paragraph 1(b) and (d) are—

- (a) all final targets set for the relevant school year;
- (b) all final targets set for the school year immediately following the relevant school year; and
- (c) all reviewed targets set for the school year next but one.

3. Where a school's annual report in relation to the relevant school year is published in the course of that year, the school's annual report in relation to the relevant school year must contain the following information—

- (a) pupils' attainment results in the school year immediately preceding the relevant school year;
- (b) performance targets as specified in paragraph 4;
- (c) the school's absence rate in the school year immediately preceding the relevant school year;
- (d) the absence targets specified in paragraph 4; and

(d) datganiad sy'n nodi i ba raddau yr oedd—

- (i) canlyniadau cyrhaeddiad y disgyblion; a
- (ii) cyfradd absenoldeb yr ysgol,

yn y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol berthnasol yn cyrraedd y targedau terfynol cyfatebol a osodwyd ar gyfer yr un flwyddyn.

4. Y targedau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(b) ac (ch) yw—

- (a) yr holl dargedau terfynol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol berthnasol; a
- (b) yr holl dargedau a bennir ym mharagraff 2 o'r Atodlen hon.

(e) a statement setting out the extent to which—

- (i) pupils' attainment results; and
- (ii) the school's absence rate,

in the school year immediately preceding the relevant school year met the corresponding final targets set for the same year.

4. The targets referred to in paragraph 3(b) and (d) are—

- (a) all final targets set for the school year immediately preceding the relevant school year; and
- (b) all targets specified in paragraph 2 of this Schedule.

© © Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.